## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth ymhlith pobl. Mae hyn yn agwedd hanfodol ar bob swydd yn y sector diogelwch ac mae'n briodol i bobl sy'n gweithio ar bob lefel ac ym mhob swydd. Dylai hyn fod yn sail i bopeth y bydd unrhyw weithiwr yn y sector yn ei wneud.

Defnyddir y term 'pobl' yn fras i gynnwys unrhyw blentyn, oedolyn, grp, cymuned neu asiantaeth y daw gweithwyr i gysylltiad â hwy, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'n cynnwys aelodau'r cyhoedd, unigolion sy'n gleientiaid y sector diogelwch, a chydweithwyr yn y gweithle.

Mae'r uned hon yn cynnwys y gweithgaredd canlynol:

•Hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth

**Grp Targed**

Mae hyn yn agwedd hanfodol ar bob swydd yn y sector diogelwch ac mae'n briodol i bobl sy'n gweithio ar bob lefel ac ym mhob swydd. Dylai hyn fod yn sail i bopeth y bydd unrhyw weithiwr yn y sector yn ei wneud.

## Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu: **Hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth**

1. gweithredu yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau a pholisïau cyflogaeth a chodau ymarfer sy'n berthnasol i hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth
2. gweithredu mewn ffyrdd sy'n: cydnabod ac adnabod cefndir a chredoau unigolion, parchu amrywiaeth, gwerthfawrogi pobl fel unigolion, a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl
3. darparu gwybodaeth sydd ei hangen ar unigolion er mwyn iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am ymarfer eu hawliau
4. darparu gwybodaeth mewn fformat sy'n briodol i'r unigolyn
5. ystyried sut mae eich ymddygiad yn effeithio ar unigolion a'u profiad o ddiwylliant ac agwedd eich sefydliad
6. gofyn am adborth gan unigolion am eich ymddygiad a'i ddefnyddio i wella beth rydych chi'n ei wneud yn y dyfodol
7. herio pobl pan na fyddant yn hybu cydraddoldeb nac yn gwerthfawrogi amrywiaeth
8. helpu eraill i hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth
9. gofyn am gymorth gan ffynonellau priodol pan rydych yn ei chael yn anodd deall sut mae hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

**Hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth**

1. y ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r polisïau cyflogaeth, a'r codau ymarfer sy'n berthnasol i hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth a sut mae angen i chi gymhwyso'r rhain
2. manteision amrywiaeth a hybu cydraddoldeb
3. yr amrywiaeth eang o ffurfiau ar wahaniaethu a sut gall y rhain ddod i'r amlwg
4. sut mae anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn effeithio ar unigolion, grwpiau a chymunedau a chymdeithas yn gyffredinol
5. pam mae hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth yn hollbwysig os ydych am weithio'n effeithiol yn y sector diogelwch
6. beth mae hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth yn ei olygu i chi yn eich gwaith bob dydd
7. sut gallwch hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth a hefyd amddiffyn pobl rhag y risg o gael niwed
8. y meysydd i chi eu datblygu'n bersonol o ran hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth a sut bydd hyn o fudd i chi fel unigolyn
9. effaith gwahaniaethau diwylliannol ar gyfathrebu llafar a chyfathrebu heb ddefnyddio geiriau
10. sut mae ymddwyn a chyfathrebu mewn ffyrdd:
11. sy'n cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth
12. nad ydynt yn eithrio nac yn peri tramgwydd i bobl
13. yn herio gwahaniaethu
14. yn parchu gwahaniaethau unigolion
15. nad yw'n camddefnyddio'r statws a'r per sydd gennych
16. sut mae eich ymddygiad yn cyfrannu at ddiwylliant eich sefydliad a'ch cyfrifoldeb dros ddatblygu diwylliant cadarnhaol i bawb
17. sut mae cydweithio ag asiantaethau a gweithwyr eraill yn gallu helpu i hybu amrywiaeth
18. sut mae darparu'r wybodaeth y mae gan unigolion yr hawl i'w chael a gwneud yn sir ei bod yn glir ac yn fuddiol
19. eich gweithredoedd chi a gweithredoedd pobl eraill sy'n tanseilio cydraddoldeb ac amrywiaeth a beth i'w wneud ynghylch hyn (gan gynnwys pan fydd y bobl hyn mewn swyddi uwch na chi)
20. beth i'w wneud am systemau a strwythurau nad ydynt yn hybu cydraddoldeb nac yn gwerthfawrogi amrywiaeth

21. y camau y gallwch chi eu cymryd i helpu pobl eraill i hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth a sut mae gwneud hyn yn effeithiol
22. y camau y gallwch chi eu cymryd i werthfawrogi'r bobl rydych chi'n rhyngweithio â hwy a'u galluogi i ryngweithio â chi
23. pam y dylech chi ofyn am gymorth pan fyddwch yn ei chael yn anodd hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth, ymhle mae cael gafael ar y cymorth hwn a sut mae ei ddefnyddio'n effeithiol

SFS14W

Hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Security |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | Mai 2007 |
| **Indicative Review Date** | Mai 2012 |
| **Dilysrwydd** | ArHynOBryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Security |
| **RCU gwreiddiol** | SFS 14 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Galwedigaethau Diogelwch Elfennol; Galwedigaethau Elfennol |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Diogelwch Digwyddiad |
| **Geiriau Allweddol** | cydraddoldeb; amrywiaeth; hybu; gwerthfawrogi; pobl |